

2011 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40
mya) 2011**

Gwnaed

27 Mai 2011

Yn dod i rym

10 Mehefin 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mehefin 2011, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd ar Ffordd Penglais, Aberystwyth yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Dan-y-coed i bwynt 86 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Maeshendre.

3. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2004.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog Llywodraeth leol a Chymunedau, idog Llywodraeth leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Mai 2011

GARETH MORGAN

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1 iddi, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S.2004/918

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(FFORDD PENGLAIS, ABERYSTWYTH,
CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 40
MYA) 2011**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi a daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Mehefin 2011.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn hwnnw o Gefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") ar Ffordd Penglais, Aberystwyth yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Dan-y-coed i bwynt 86 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Maeshendre.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos ar ôl 8 Mehefin 2011, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn a'r plan cysylltiedig yn rhad ac am ddim, yn swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE ac yn Swyddfa Bost Waunfawr, Rhoshendre, Waunfawr, Aberystwyth SY23 3QD yn ystod oriau agor arferol y swyddfeydd, neu gellir cael copïau'n rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r rhif cyfeirnod CZ510-2-11- qA896439/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/ Offerynnau Statudol Lleol Drafft / Gorchymynion Traffig Parhaol/2011').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL

Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru